Dim Ond Weithie

Dim ond weithie
Dwy'n meddwl amdanat
Wrth glywed cerddoriaeth
Neu geirie rhyw gan.
Neu pan dwy'n cerdded
Ar ben fy hunan
Mae'r cyfan yn llifo
Yn ôl i'm cof.

Dim ond weithie
Dwy'n meddwl amdanat
Wrth i mi grwydro
Strydoedd y dre.
Ac weithie'n dy weld
Yng nghornel fy llygad
Dim ond rhywun tebyg
Ar gornel y stryd.

Rhyw bryd, amser maeth yn ôl
Rhyw bryd…

Dim ond neithiwr
'R oni'n meddwl amdanat
Dim ond neithiwr
Mewn breuddwyd fer.
Dim ond weithie
Dwy'n meddwl amdanat
Mae hynny'n naturiol
I rywun fel fi.

Rhyw bryd, amser maeth yn ôl
Rhyw bryd…

Llais o'r gorffennol yn galw fi 'nol,
Llais o'r dyfodol yn galw fi, galw fi, galw fi.

Rhyw bryd, amser maeth yn ôl
Rhyw bryd…

© Geraint Griffiths 2005